

Adroddiad Ar Ddigwyddiad Rhwydweithio Cynghrair Henoed Cymru



Cefndir

Cynghrair o 19 sefydliad gwirfoddol cenedlaethol yw Cynghrair Henoed Cymru, sydd wedi ymrwymo i gydweithio i ddatblygu'r fframweithiau deddfwriaethol, polisi ac adnodd a fydd yn gwella bywydau pobl h n. Gyda'i gilydd, mae aelod sefydliadau Cynghrair Henoed Cymru yn meddu ar wybodaeth helaeth am ddatblygu gwasanaethau a chyflwyno gwasanaethau ac maent yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl h n ledled Cymru. Mae aelodau'n gweithredu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol yn ogystal, ac mae llawer ohonynt yn seiliedig ar aelodaeth.

Ym mis Mawrth 2015, cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio gan sefydliadau Cynghrair Henoed Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau gwirfoddol sirol a'r trydydd sector ehangach. Er bod cynrychiolwyr o'r sector iechyd wedi cael gwahoddiad i fynychu, roedd yr ymateb yn siomedig. Yn y digwyddiad, gofynnwyd i gynrychiolwyr drafod y cwestiwn canlynol:

Sut gallwch chi sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithio gyda phobl h n a Cynghrair Henoed Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynllunio gwasanaethau lleol fel bod pobl h n yn eich ardal yn elwa ar arbenigedd cenedlaethol a thrydydd sector lleol?

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o bwytiau allweddol a chamau gweithredu arfaethedig sy'n deillio o drafodaethau.

Yr her

Oherwydd natur amrywiol y trydydd sector sy'n cwmpasu sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithredu ledled Cymru a sefydliadau llai sy'n gweithredu ar lefel lleol, mae datblygu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn creu her sylweddol. Mae diffyg gwybodaeth rannedig yn gallu arwain at ddyblygu gwasanaethau ac yn ei gwneud yn anodd datblygu gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl h n sy'n gost effeithiol ac yn ymateb i angen unigol.

Mae'n amlwg felly fod angen gwella cyfathrebu rhwng sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol. Awgrymodd cynrychiolwyr y dylai Cynghrair Henoed Cymru, ar y cyd â chynghorau gwirfoddol sirol, ddatblygu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu gwell i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a lleihau achosion o ddyblygu gwasanaethau. Awgrymwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cynllunio strwythurau trydydd sector rhanbarthol a lleol. Byddai hyn hefyd yn helpu i nodi unrhyw fylchau mewn darparu gwasanaethau neu gyfryngau cyfathrebu.

Er mwyn cyflawni parhad ac effeithlonrwydd gwell mewn gwasanaethau ar draws y trydydd sector, dylid ffurfio gweithgor a gosod tasg iddo nodi sut gall sefydliadau trydydd sector gweithio gyda'i gilydd ar lefel strategol a gweithredol. Byddai angen i'r gr p nodi arfer da a gosod deilliannau sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n blaenoriaethu angen unigol.

Codwyd cynrychiolaeth trydydd sector ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) a Grwpiau Arweinyddiaeth Rhanbarthol newydd fel maes pryder hefyd. Mae llawer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn gwahodd rhywun o'u cangen cynghorau gwirfoddol sirol lleol i gynrychioli'r trydydd sector mewn cyfarfodydd – nododd cynrychiolwyr fod hyn wedi dechrau digwydd gyda'r grwpiau rhanbarthol newydd hefyd. Fodd bynnag, gan nad yw llawer o sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yn aelodau o gynghorau gwirfoddol sirol, mae'r wybodaeth a rennir rhwng sefydliadau yn gyfyngedig. Mae hyn hefyd yn golygu nad yw arbenigedd a phrofiad sefydliadau cenedlaethol ar gael wedyn i wasanaethau rhanbarthol a lleol a bod y cyfle ar gyfer trafodaeth strategol ac arloesedd hefyd yn cael ei golli. Cytunodd cynrychiolwyr fod angen i gynrychiolwyr trydydd sector ar fyrddau gwasanaethau lleol a rhanbarthol wella yn y ffordd y maent yn cyfleu gwybodaeth a chyfleoedd i gydweithio wrth y trydydd sector ehangach.

Cynigiwyd hefyd y dylid rhoi system ar waith i hwyluso rhannu gwybodaeth yn well rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector ehangach. Gellid cyflawni hyn trwy ffurfio gwasanaeth rhybuddio sy'n denu sefydliadau i lenwi bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth neu i fynd i'r afael ag angen penodol. Er bod angen datblygu system effeithiol i hyrwyddo rhannu gwybodaeth rhwng sectorau, ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd i gynnwys y trydydd sector mewn trafodaethau strategol yn gynnar. Mae cynllunio gwasanaethau ar y cyd yn gallu caniatáu i fodolau gofal arloesol ddod i'r amlwg a gall helpu sefydliadau i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.

Teimlwyd bod angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol symud oddi wrth fod yn rhy amddiffynnol o'u gwasanaethau eu hunain. Mae gan rai ardaloedd hwylusydd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael ei ariannu gan y bwrdd iechyd lleol neu'r awdurdod lleol. Gallai'r swydd hon olygu bod unigolyn cyswllt defnyddiol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol a gallai weithredu fel cyfrwng i ehangu ymwybyddiaeth o wasanaethau trydydd sector hefyd. Yn ychwanegol, teimlai cynrychiolwyr o'r trydydd sector lleol ac awdurdodau lleol y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am Gynghrair Henoed Cymru a'i nodau hirdymor.

Mae'n glir fod angen gwella mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau a meithrin gallu ar y cyd yn y trydydd sector. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw drafodaethau rhwng sefydliadau trydydd sector lleol a chenedlaethol flaenoriaethu'r hyn sydd ei angen i wella bywydau ar gyfer pobl h n. Mae Cynghrair Henoed Cymru mewn sefyllfa dda i drefnu sgwrs strategol am wella gwasanaethau ar gyfer pobl h n a sicrhau, wrth adeiladu partneriaethau rhwng sectorau, mai gwella bywydau ar gyfer pobl h n yw'r egwyddor sy'n sail i bob penderfyniad.

Ariannu'r trydydd sector

Yn dilyn toriadau i'r sector statudol, mae integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r trydydd sector wedi dod yn rheidrwydd yn hytrach na menter polisi. Nododd cynrychiolwyr feysydd lle mae'r trydydd sector yn cyflwyno gwasanaethau a oedd wedi cael eu cyflwyno gan y sector statudol yn y gorffennol, ond heb ddiogelwch ariannu hirdymor. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Cymru yn gweld bod y trydydd sector yn gallu cyflwyno gwasanaethau sydd gystal â'r rheiny a gyflwynir gan wasanaethau statudol. Mae trefniadau ariannu yn y tymor byr yn rhoi pobl h n mewn perygl o fod yn agored i niwed ac ar eu pen eu hunain pan ddaw gwasanaethau i ben.

Camau arfaethedig

1. Mae angen i GIG Cymru ac awdurdodau lleol fabwysiadu dull mwy hyblyg o gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn i ganiatáu i sefydliadau trydydd sector cenedlaethol a lleol gael mewnbwn strategol. Mae cynllunio gwasanaethau ar y cyd yn golygu y gall modelau arloesol ymddangos a gall helpu sefydliadau i wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig.
2. Bydd y sector statudol yn sicrhau bod sefydliadau trydydd sector cenedlaethol yn cael eu cynrychioli ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol, ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol lleol.
3. Bydd Cynghrair Henoed Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau gwirfoddol sirol i ddatblygu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a lleihau nifer y gwasanaethau sy'n cael eu dyblygu yn y trydydd sector.
4. Bydd Cynghrair Henoed Cymru yn gofyn i CGGC ffurfio gweithgor a fydd yn nodi sut gall sefydliadau trydydd sector weithio gyda'i gilydd ar lefel strategol a gweithredol. Byddem yn awgrymu y dylai'r grŵp nodi arfer da a gosod deilliannau sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n blaenoriaethu angen unigol.
5. Bydd Cynghrair Henoed Cymru yn cysylltu'n agosach â Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r 19 sefydliad canlynol yn aelodau o Gynghrair Henoed Cymru:

Action on Hearing Loss Cymru, Age Connects Wales, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer Cymru, Gofal Arthritis, Y Groes Goch Brydeinig yng Nghymru, Gofal a Thrawsio Cymru, Gyrfa Cymru, Contact the Elderly, Ymddiriedolaeth i Ofalwyr, Cruse Cymru, Volunteering Matters Wales, Deafblind Cymru, Anabled Cymru, NIACE Cymru, Prime Cymru, y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, RNIB Cymru a Chymdeithas Strôc Cymru.

Cysylltwch â: Rachel Lewis; rachel.lewis@agealliancewales.org.uk neu Malcolm Andrews; malcolm.andrews@agecymru.org.uk

Ffôn: 029 2043 1554

Gwefan: www.agealliancewales.org.uk

Trydar: [@AgeAllianceWal](https://twitter.com/AgeAllianceWal)